**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A483 (Y TRALLWNG, POWYS) (DILEU CYFYNGIAD) 202-**

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 82(2) a 83(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd adfer y terfyn cyflymder cenedlaethol ar y darn o gefnffordd yr A483 i'r gogledd-ddwyrain o'r Trallwng, o bwynt 185 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r A458 Salop Road hyd at bwynt 183 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r A458 Salop Road, yn Sir Powys.

Yn ystod cyfnod o 21 o ddiwrnodau o 19 Mehefin 2026 ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn arfaethedig, y plan a Datganiad o'r Rhesymau dros wneud y Gorchymyn, yn rhad ac am ddim, yn ystod oriau agor arferol yn Llyfrgell y Trallwng, Y Lanfa, The Canal Wharf, Y Trallwng, Powys SY21 7AQ. Gellir gweld y dogfennau hefyd ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd neu gellir eu cael, yn rhad ac am ddim, drwy e-bostio Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru neu drwy ysgrifennu at: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ, gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA2346198.

Rhaid anfon unrhyw wrthwynebiadau, gan nodi ar ba sail y'u gwneir, a chan ddyfynnu'r cyfeirnod qA2346198, drwy e-bost i Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru neu'n ysgrifenedig i: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ erbyn 10 Gorffennaf 2026.

Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru ymgynghori â phersonau a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses ymgynghori, caniateir i ni drosglwyddo gwybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni a'ch data personol. Fodd bynnag, ni fyddwn yn datgelu eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn ymdrin â'r materion a godwyd. Os nad ydych yn dymuno i ddata personol gael eu hanfon ymlaen at drydydd parti, dylech nodi hyn pan fyddwch yn cyflwyno eich gohebiaeth a bydd Gweinidogion Cymru yn copïo'r sylwadau i'r trydydd parti priodol gyda'r enw a'r cyfeiriad wedi eu dileu. Os bydd Ymchwiliad Cyhoeddus lleol yn cael ei gynnal, bydd yr Arolygydd yn gweld y sylwadau ond efallai y bydd yn rhoi llai o sylw iddynt o ganlyniad i

**THE A483 TRUNK ROAD (WELSHPOOL, POWYS) (DERESTRICTION) ORDER 202-**

The Welsh Ministers propose to make an Order in exercise of their powers under sections 82(2) and 83(1) of the Road Traffic Regulation Act 1984.

The effect of the proposed Order will be to derestrict to the national speed limit the length of the A483 trunk road northeast of Welshpool, from a point 185 metres southwest of the centre-point of its junction with the A458 Salop Road to a point 183 metres northeast of the centre-point of its junction with the A458 Salop Road, in the County of Powys.

During a period of 21 days from 19 June 2026, a copy of the proposed Order, plan and a Statement of Reasons for making the Order may be inspected free of charge, during normal opening hours at Welshpool Library, Y Lanfa/The Wharf, The Canal Wharf, Welshpool, Powys SY21 7AQ. The documents can also be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders or obtained, free of charge, by e-mailing TransportOrdersBranch@gov.wales or writing to Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ, quoting reference number qA2346198.

Objections, specifying the grounds on which they are made, and quoting reference number qA2346198, must be sent by e-mail to TransportOrdersBranch@gov.wales or in writing to Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ by 10 July 2026.

Should you wish to object, support or make representations, the Welsh Government may need to consult with people and organisations outside the Welsh Government. As part of the consultation process, we may pass information to them, including information you have given us and your personal data. We will, however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to address the issues raised. If you do not wish personal data to be forwarded to third parties, you should state this when submitting your correspondence and the Welsh Ministers will copy the representations to the appropriate third parties with the name and address removed and if there is to be a local Public Inquiry, the representations will be seen by the Inspector who may give them less weight as a result.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff**

hyn.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

*C Wynn*

**C WYNN**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**CF10 3NQ.**

*C Wynn*

**C WYNN**
Transport
Welsh Government